
# MAP-PROFLEN O GYMRU GAN SAXTON Y MAP CYWIR CYNHARAF O GYMRU

**Gan D. HUW OWEN**




RHODDWYD sylw haeddiannol i gyfraniad arbennig Christopher Saxton i hanes cartograffiaeth. Fel canlyniad i'r arolwg a wnaed ganddo yn Lloegr a Chymru yn ystod 1573-8, cyhoeddwyd cyfres o 34 o fapiau-sirol gydag un map cyffredinol (1574-9) a map-mur mawr (1583).

Cydnabyddir gwerth a phwysigrwydd y gweithiau hyn ond datblygiad annisgwyl oedd ymddangosiad map, yn cynnwys enw Saxton a'r dyddiad 1580, yn nhŷ-arwerthiant Sotheby's yn 1986.

Prynwyd y map gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, am arian mawr, ac mae bellach yn un o'r eitemau mwyaf gwerthfawr yng Nghasgliad Mapiau y Llyfrgell.

Yr oedd rhesymau gwleidyddol a milwrol yn gyfrifol am y gefnogaeth a roddwyd gan y Llywodraeth i arolwg Christopher Saxton. Cyflogwyd ef gan Thomas Seckford, a fu'n fyfyriwr yn Ysbyty Gray ar yr un adeg â William Cecil.

Yr oedd ef yn ŵyr i Dafydd Seisyllt a adawodd gymdogaeth Gymraeg Ergyng, yn Swydd Henffordd, am Lundain yn ystod teyrnasiad Harri VII.

Roedd gan William Cecil, a ddyrchafwyd yn Arglwydd Burghley, ddylanwad mawr yn llys y Frenhines Elisabeth. Rhoddodd ef gefnogaeth llwyr i arolwg Saxton a derbyniodd gopïau proflen o'r mapiau amrywiol a gynhyrchwyd gan y tir-fesurydd enwog.

Paratowyd y mapiau-sirol yn gyntaf fel taflenni unigol ac yna fe'u cyhoeddwyd yn yr *Atlas of England and Wales* (1579). Ymddangosodd tair sir ar ddeg Cymru ar saith map, gyda'r siroedd yn cael eu dangos yn unigol, mewn grwpiau o ddwy sir, neu, mewn un achos, pedair sir, megis Maesyfed, Brycheiniog, Aberteifi a Cherfyrddin.

Cyflwynodd Thomas Seckford y map-mur, a gyhoeddwyd yn 1583, i'r Frenhines Elisabeth, ac mae'n debyg mai dyma'r map a nodwyd yn 1592 gan ymwelydd i gartref yr Arglwydd Burghley yn Theobalds, Swydd Hertford.

Yr oedd hwn yn fap o Loegr a Chymru, a engrafiwyd ar ugain plât, ar raddfa eang o 7 milltir y fodfedd.

* * *

MAE'N debyg fod perthynas uniongyrchol rhwng y map-mur (1583) a'r map (1580) a brynwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn 1986. Cyflwynir ar fap 1580 amlinelliad daearyddol o Gymru ac o siroedd cyfagos Lloegr.

Wrth gymharu'r map hwn â mapiau cynnar eraill o Gymru megis map Humphrey Llwyd, sef *Cambriae Typus*, a gyhoeddwyd gan Abraham Ortelius yn Antwerp yn 1573, gwelir gwelliant amlwg yn yr amlinelliad. Am y tro cyntaf llwyddwyd i ddarparu ffurf cartograffig cywir siroedd Môn a Phenfro, a gorynysoedd Llŷn a Gŵyr.

Y mae astudiaeth gymharol o fapiau 1580 a 1583 yn dangos nifer o elfennau tebyg, ond hefyd rhai sy'n wahanol. Defnyddiwyd ffurfiau llythrennau bychan (mewn llawysgrif) ar gyfer enwau'r siroedd ar fap 1580, a phrif lythrennau ar fap 1583.

Nid oes symbolau-coed ar y ffin rhwng siroedd Mynwy a Chaerloyw, ar fap 1580, ac mae'r enwau 'Dee flu' a 'Sabrina flu', a gyflwynwyd mewn ffurf llawysgrif ar fap 1580, yn absennol o fap 1583.

Cawn argraff glir mai proflen oedd map 1580 ar gyfer mapmur 1583, ac mae'n arwyddocaol felly fod map 1580 yn cynnwys elfennau a gyflwynir mewn ffurfiau llawysgrif ac engrafiedig.

Lluniwyd symbolau am fryniau mewn ffurfiau llawysgrif ac engrafiedig. Engrafiwyd rhai elfennau, megis yr amlinelliad daearyddol, ffiniau'r siroedd, symbolau trefi, ac enwau trefi ac afonydd.

Ar y llaw arall, gosodwyd ffurfiau llawysgrif ar gyfer yr wyth llong, symbolau coed, y mesurraddfa, ac enwau siroedd (yn Saesneg), a'r teitl (yn Lladin) mewn cyflwyniad nodweddiadol.

Dangosir yn glir y ffin rhwng Cymru a Lloegr a nodir y rhannau perthnasol o siroedd cyfagos Lloegr yn 'Parte of Lancaster shire', Parte of Cheshire ... Patre of Devon'.

Mae'n bosibl felly fod Christopher Saxton wedi bwriadu cynhyrchu map o Gymru ar wahân i'w fapiau o Loegr a Chymru, ond ni chwblhawyd y bwriad hwn.

* * *

MAE'R map yn cynnwys dwy daflen tudalen-ddwbl gyda darnau wedi ei torri allan o ddwy daflen arall. Yn mesur 23"x20" gosodwyd y tu cefn un daflen fawr folio, a darn o'r un papur, yn mesur 20"x7", yn glynu wrtho.

Wedi archwilio'r map yn ofalus yn y Llyfrgell Genedlaethol, daethpwyd o hyd i ddyfrnod sy'n ymddangos ddywaith. Defnyddiwyd yr un dyfrnod yn atlas Saxton, yr *Atlas of England and Wales* (1579), ac fe'i rhestrwyd yn Rhif 2173 yn y gyfrol, E. Heawood, *Watermarks, Mainly of the 17th and 18th Centuries* (Hilversum, 1950).